Helpu i wella gwasanaethau lleol a chael £15 fel diolch

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

<NAME>
<ADDRESS LINE1>
<ADDRESS LINE 2>
<ADDRESS LINE 3>
<TOWN>
<COUNTY>

Annwyl Breswylydd,

Mae eich cyfeiriad wedi'i ddewis ar gyfer **Arolwg Cenedlaethol Cymru**.

Dyma eich cyfle i sôn am eich profiadau a'ch barn ar amrywiaeth o faterion megis iechyd, y GIG, gwasanaethau'r cyngor a'ch ardal leol. Bydd eich atebion yn ein helpu i weithredu ar bethau sy'n bwysig i chi.

Mae rhan gyntaf yr arolwg yn cael ei chynnal dros y ffôn, felly mae angen eich rhif ffôn arnom.

Cam 1. Cysylltwch

I roi eich rhif ffôn, ewch i'n gwefan ddiogel:

www.llyw.cymru/arolwgcymru

A rhowch y cod mynediad hwn: <UAC1> <UAC2> <UAC3>

Neu, ffoniwch ni am ddim ar **0800 496 2119**

Cam 2. Byddwn ni'n eich ffonio chi

Bydd cyfwelydd profiadol yn eich ffonio ac yn trefnu amser i wneud yr arolwg. Mae adran fer ar-lein ar y diwedd. Os nad ydych yn defnyddio'r rhyngrwyd, gallwch wneud yr adran hon dros y ffôn yn hytrach.

Cam 3. Diolch!

I ddweud diolch am gymryd rhan yn yr arolwg, byddwn yn anfon **taleb gwerth £15**.

Mae'r arolwg yn hawdd i'w wneud a does dim angen unrhyw wybodaeth arbennig arnoch. Gallwch gymryd rhan yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae'r atebion yn gyfrinachol ac yn cael eu defnyddio ar gyfer ymchwil yn unig.

Mae'r arolwg yn cael ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), ar ran Llywodraeth Cymru. Mae mwy o wybodaeth am yr arolwg yn y daflen amgaeedig.

Rhowch eich rhif ffôn o fewn 7 diwrnod. Efallai y byddwn yn ymweld â chi, gan gadw pellter cymdeithasol, i ofyn ichi am eich rhif ffôn os na fyddwn wedi clywed gennych.

Diolch am ein helpu gyda'r astudiaeth bwysig hon.

Dr Steven Marshall
Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol

Hapus i gyfathrebu yn y Gymraeg neu yn Saesneg.